

Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd

COFNODION

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Iau 8fed Medi 2011 am 5.30pm yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian (Canolfan Dysgu a Datblygu Wylfa).

Yn Bresennol

Sefydliad	Enw	Cyfenw
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Sarah	Andrews
Canolfan Cyngori Ynys Môn	Jackie	Blackwell
Cymdeithas Amaethyddol Ynys Môn / Clwb Rotari Ynys Môn	John	Chamberlain
Y Grid Cenedlaethol	Gavin	Crook
Ynys Ynni Môn	Sasha Wyn	Davies
Y Grid Cenedlaethol	Graham	Denison-Smith
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	Will	Edwards
Grŵp Cyswllt y Prosiect	Dennis	Evans
Canolfan Cyngori Ynys Môn	Karen	Garrod
Y Ganolfan Byd Gwaith	Damien	Hamilton
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Anthony	Hughes
Cyngor Cymuned Llanfaethlu	Y Cyngorydd Kenneth P	Hughes
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Y Cyngorydd William T	Hughes
Academi Sgiliau Genedlaethol Niwclear	Alli	Hunt
Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa	Y Cyngorydd Aled Morris	Jones
Cyngor Cymuned Mechell	Jac	Jones

Cyngor Cymuned Llanbadrig	Elfed	Jones
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Gwynne Morris	Jones
Magnox	John Idris	Jones
Magnox	Lowri	Jones
Cyngor Sir Ynys Môn	Y Cynghorydd Thomas H	Jones
Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd	John	Jukes
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Allan	Kerry
Y Grid Cenedlaethol	Martin	Kinsey
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Mannon	Lewis
Dŵr Cymru	Angela	Meadows
Cyngor Sir Ynys Môn	J.V.	Owen
Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear	Mike	Pigott
Cyngor Sir Ynys Môn	Ian	Roberts
Cyngor Tref Amlwch	Val	Roberts
Cyngor Cymuned Llanfachraeth	Bleddyn	Rowlands
Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd	Y Cynghorydd Elwyn	Schofield
Prifysgol Bangor	Paul	Spencer
Cyfeillion y Ddaear	David	Stephenson
Coleg Menai	Wyn	Thomas
Cwmni Cemaes Cyf	Eric	Torr
Morgan Evans	Gwilym	Williams
Undeb Amaethwyr Cymru	Heidi	Williams

Plaid Geidwadol Ynys Môn	Paul	Williams
Syrfewyr Siartredig ERW	Elfed	Williams
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru	Richard	Williams
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	Iwan	Williams
Cyngor Cymuned Llaneilian	Helen	Woodcock
Cwmni Ymddiriedolaeth Bodorgan	Melanie	Wymer
Aelodau'r cyhoedd		
	Mr	O'Hara
	Kimberley	Jones
Ymddiheuriadau		
Cymdeithas Ymddeoledigion Wylfa	Tom	Conway
Cyngor Sir Ynys Môn (Prif Weithredwr)	Richard Parry	Jones
Aelod Cynulliad Ynys Môn	Ieuan Wyn	Jones
Clwb Ffermwyr Ifanc	Ellen	Jones
Ysgol Uwchradd David Hughes	Dr Brian	Jones
Aelod Seneddol	Albert	Owen
Cymunedau yn Gyntaf	Jenny	Whiston
Y Ddraig Ffyni – Y Cynulliad i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru	Bethan	Williams

Os nad yw'ch enw ar y rhestr oherwydd camgymeriad neu os yw wedi ei nodi'n anghywir, cysylltwch â ni ar 0800 954 9516 neu wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com.

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Dennis Evans (DE). Derbyniwyd yr ymddiheuriadau.

2 CYMERADWYO COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.

3 MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL

- Eitem 11 - Mae'r Cadeirydd wedi trafod cais y Cynghorydd Tom Jones i edrych ar Adroddiad Weightman mewn cyfarfod yn y dyfodol o'r Grŵp gyda Horizon Nuclear Power. Cytunir ar siaradwr gwadd ar gyfer y cyfarfod nesaf.
- Cadarnhaodd DE hefyd ei fod wedi mynychu cyfarfod Grŵp Llywio Horizon ar yr Asesiad Effaith ar Iechyd. Bydd DE yn sicrhau bod yr Asesiad Effaith ar Iechyd yn eitem ar agenda'r Grŵp yn y dyfodol.

4 YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BROSIECT YR ADEILAD NEWYDD

- Gwnaeth Alan Smith (AS), Pennaeth Datblygu'r Safle, gyflwyniad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Horizon a'r Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd. Dechreuodd drwy roi gorolwg o'r sefyllfa yn yr Almaen. Mae'r newidiadau diweddar ym mholisi niwclear yr Almaen wedi cael effaith negyddol ar referniw EON ac RWE. Fodd bynnag, mae'r ddau randdeiliad wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn. Maent wedi rhyddhau datganiadau i ddweud y byddant yn parhau â'r datblygiadau yn y DU.
- Cyrhaeddodd y prosiect garreg filltir bwysig ar 18^{fed} Gorffennaf 2011 pan gafodd y Datganiad Polisi Cenedlaethol ei ddynodi gan y Senedd. Roedd Wylfa ar y rhestr o safleoedd a fyddai'n addas ar gyfer adeilad niwclear newydd.
- Mae Llywodraeth y DU yn ystyried Diwygio'r Farchnad Drydan (*Electricity Market Reform*). Rhaid sicrhau chwarae teg i bawb er mwyn darparu dyfodol carbon isel ar gyfer y DU. Mae angen cynllun sefydlog hirdymor er mwyn annog buddsoddiad.
- Eglurodd AS fod Horizon yn tynnu tua therfyn y broses ar gyfer dewis y consortiwm a thechnoleg yr adweithydd. Maent yn canolbwyntio ar yr adweithyddion Westinghouse 1100 MW AP 1000 a'r adweithyddion Areva 1600 MW EPR. Gwneir y penderfyniad terfynol ar y dechnoleg tuag at ddiwedd y flwyddyn, er mwyn cael cyfle i bwysu a mesur canlyniadau Adroddiad Weightman.
- Disgwylir y bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau yn gynnar yn 2012. Cynhelir ail gam oddeutu blwyddyn yn ddiweddarach. Rhagwelir y bydd y Gorchymyn i Ganiatáu Datblygu (sef, i bob pwrpas, cais cynllunio'r prosiect) yn cael ei gyflwyno yn hydref 2013.
- Yn ystod 2011, mae Horizon wedi parhau i fwrw ymlaen â'r arolygon llinell sylfaen ar gyfer yr Asesiadau Effaith Amgylcheddol a'r astudiaethau datblygu safle, megis ystyried opsiynau newydd o ran oeri dŵr. Bydd Horizon hefyd yn cyhoeddi'r Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SOCC), sy'n amlinellu fframwaith Horizon ar gyfer ymgynghori â'r gymuned.

- Cyflwynodd AS fap yn dangos y gallai'r datblygiad fod yn agosach i'r môr, ac felly ymhellach i ffwrdd wrth Dregele a Chemaes. Drwy wneud hynny, efallai na fydd angen symud y cebl uwchben 400kV. Hefyd, ni fydd safle'r orsaf bŵer bresennol yn cael ei heffeithio gan y gwaith adeiladu.
- Eglurodd AS fod angen prynu rhagor o dir (dros-dro ac yn barhaol) ac mae Horizon wedi penodi asiant tir i wneud ymholiadau cychwynnol â thirfeddianwyr ynghylch tir gerllaw Wylfa. Bydd yr un asiantau tir hefyd yn cysylltu â thirfeddianwyr i drefnu bod Horizon yn gallu cynnal arolygon amgylcheddol ar dir nad yw'n berchen arno.
- Cadarnhaodd AS fod gwefan y Grŵp bellach ar waith. Bydd cofnodion, agendâu a chyflwyniadau Grŵp Cyswllt y Prosiect yn ymddangos ar y wefan.
- Mynegodd y Cyngorydd WT Hughes ei syndod fod Horizon yn chwilio am ragor o dir. Mynegodd bryder ar ran pobl Tregele ac am werth eu heiddo petai ffin Wylfa yn dynesu'n nes at y pentref.
- Ymatebodd AS drwy ddweud ei fod yn deall y pryderon hynny a chadarnhaodd y byddai'r prif adeilad ymhellach i ffwrdd wrth Dregele na'r cynllun blaenorol, a gallai hynny leihau'r effaith gweledol a'r effaith o ran sŵn. Mae Horizon hefyd yn ceisio datblygu polisi caledi ar gyfer cyfeiriadau preswylwyr sy'n cael eu heffeithio gan y datblygiad.

NODYN AR ÔL Y CYFARFOD: Mae Horizon yn mynd i ymrwymo i Gytundeb Perfformiad Cynllunio gyda Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'r cytundeb hwn yn golygu bod Horizon yn ymrwymo cyllid ac adnoddau er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei ymrwymadau ychwanegol i graffu ac i ystyried y prosiect heb effeithio'n andwyol ar ei gyfrifoldebau beunyddiol.

5 YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AR Y PROSIECT YNYS YNNI MÔN

- Rhoddodd Sasha Wyn Davies (SWD), Cyfarwyddwr y Prosiect yng Nghyngor Ynys Môn, yr wybodaeth ddiweddaraf a gorolwg o'r prosiect Ynys Ynni, gan egluro mai nod y prosiect yw sefydlu Ynys Môn fel canolfan ragoriaeth o'r radd flaenaf ym maes cynhyrchu ynni carbon isel cynaliadwy. Amlinellodd SWD y prif ddatblygiadau ynni ar Ynys Môn, yn cynnwys biomas, niwclear a ffermydd gwynt ar y môr.
- Pwysleisiodd SWD fod y Cyngor yn gadarn o blaid y prosiect i adeiladu gorsaf bŵer newydd a'i bod yn bwysig fod yr ardal leol yn elwa. Hefyd, ategodd SWD y byddai asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau na fydd y rhaglen yn cael effaith niweidiol ar yr iaith.
- Dywedodd Will Edwards (WE) ei bod yn bwysig ystyried yr holl brosiectau ynni ar yr ynys fel cyfanwaith, yn hytrach na chaniatáu datblygu technolegau micro-gynhyrchu blith draphlith ledled yr Ynys.

6 COLEG MENAI - YR WYBODAETH DDIWEDDARAF

- Rhoddodd Wyn Thomas (WT), Dirprwy Bennaeth Coleg Menai, gyflwyniad ar Ganolfan Ynni newydd Coleg Menai a Chwmni Prentis Menai.
- Eglurodd WT fod y ganolfan newydd, gwerth £6 miliwn, yn cynnig cyrsiau arbenigol i 150 o bobl ifanc fel eu bod yn cael eu hyfforddi'n drwyadl i weithio yn y diwydiant ynni. Mae'r cyfleusterau weldio ac adeiladu yn y ganolfan ymhlith y mwyaf datblygedig ac arloesol yng Nghymru. Mae'r ganolfan wedi cael ei chyllido'n rhannol gan yr NDA ac hefyd mae Magnox yn ei chefnogi.
- Rhoddodd WT gyflwyniad i Gwmni Prentis Menai. Sefydlwyd y cwmni fel elusen ym mis Awst 2011 ac mae dan reolaeth lwywr Coleg Menai. Y bwriad yw cynyddu nifer y prentisiaid ledled Gogledd Cymru. Ar 1^{af} Medi, roedd 30 prentis a 10 cyflogwr wedi cofrestru.
- Caiff y cwmni ei noddi gan Horizon, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Mae'r Cyngorau Sir yn cyfrannu £30k yr un a Horizon yn cyfrannu £90k. Diolchodd WT i John Idris Jones (Magnox) ac AS am eu cefnogaeth.
- Ateggodd DS ei fod yn falch o glywed y newyddion da am y cyfleoedd i'n pobl ifanc.
- Gofynnodd Melanie Wymer (MW) pa lefel o Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) sy'n cael ei dysgu yn y ganolfan. Atebodd WT fod y cwmni'n cynnig cymwysterau hyd at lefel 5.
- Gofynnodd y Cyngorydd Elwyn Schofield (ES) faint o'r prentisiaid oedd o Fôn. Nid oedd WT yn gwybod yr union ffigurau. Dywedodd fod y rhan fwyaf yn byw ar Ynys Môn ond fod yna brentisiaid o ardaloedd eraill hefyd, megis Arfon. Gofynnwyd i WT gysylltu ag ES i roi'r union ffigurau.

7 Y GRID CENEDLAETHOL A PHROSIECT CYSYLLTU GOGLEDD CYMRU

- Rhoddwyd y cyflwyniad olaf gan Martin Kinsey (MK), Uwch Reolwr Prosiect Y Grid Cenedlaethol. Eglurodd MK fod y Grid Cenedlaethol yn berchen ac yn cynnal y system drosglwyddo trydan foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr. Maent yn gorfod cydbwysu'r cyflenwad â'r galw o un funud i'r llall, yn ogystal â rheoli'r system o drosglwyddo nwy pwysedd uchel ym Mhrydain. Yn unol â Deddf Trydan 1989, mae'r Grid Cenedlaethol yn rhwym i ddatblygu system drosglwyddo trydan effeithiol ac effeithlon.
- Eglurodd MK mai'r uchafswm trydan sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU ar hyn o bryd yw 60 GW. Dros y 5-10 mlynedd nesaf mae cynlluniau i gau nifer o orsafoedd pŵer ond mae'r galw am ynni'n cynyddu. Amcangyfrifir y bydd angen cynhyrchu 20GW arall erbyn 2020.
- Eglurodd MK y dewisiadau gwahanol ar gyfer trosglwyddo trydan megis ceblau uwchben, ceblau dan ddaear a Pheipiau wedi'u Hynysu â Nwy (*Gas Insulated Lines*). Mae

hefyd yn bosibl trosglwyddo trydan o dan y môr ond er mwyn ei drosglwyddo dros bellteroedd sylweddol, fel arfer caiff ei drosi o AC i DC, ac mae angen gorsaf gywiro/gwrthdroi a newidyddion bob pen.

- Ar hyn o bryd, ceblau uwchben sy'n cario'r trydan o Wylfa i Bentir ac yna ymlaen i Lannau Dyfrdwy. Bydd angen ehangu'r system hon i gludo tua 5.6mw - 3.6mw o bŵer niwclear a 2.0mw o bŵer gwynt ar y môr. Mae'r gylched ddwbl uwchben bresennol ar Ynys Môn wedi'i chyfyngu i gludo hyd at 1.8GW. Yn y dyfodol bydd angen system drosglwyddo cylched dwbl arall i gludo'r gofynion llwyth o Wylfa i Bentir.
- Eglurodd MK fod y Grid Cenedlaethol ar hyn o bryd yn gwerthuso'r dewisiadau gwahanol ac maent wedi dechrau trafod y posibiladau gyda'r awdurdodau cynllunio. Maent yn bwriadu llunio a chyhoeddi adroddiad fel bo pobl leol yn gallu rhoi adborth ar yr opsiynau. Yna, bydd y Grid Cenedlaethol yn ystyried y llwybr, y safle a'r effaith amgylcheddol. Bydd y Grid Cenedlaethol yn ymgynghori bob cam o'r ffordd ac hefyd yn cynnal trafodaethau gyda thirfeddianwyr lleol. Y cam olaf fydd cyflwyno cais cynllunio.
- Yn ddiweddar, cynhaliodd y Grid Cenedlaethol arolwg ar Ynys Môn a oedd yn dangos nad oedd pobl yn ymwybodol o'u swyddogaeth. Felly, byddant yn cyhoeddi cylchlythyr yn yr hydref i godi ymwybyddiaeth o'r prosiect ac yn lansio ymgynghoriad ffurfiol y flwyddyn nesaf.
- Gofynnodd DE i MK ddarparu taflenni ffeithiau ar ei gyflwyniad.
- Gofynnwyd cwestiwn am y grant a roddwyd gan Ofgem i'r Grid Cenedlaethol i ddatblygu llwybr o Wylfa i Sir Benfro. Atebodd MK fod y llwybr ynni hwn yn un o nifer o opsiynau posib. Bydd y grant yn ariannu astudiaeth ddichonolrwydd.
- Mynegodd Will Edwards (WE) bryder fod y ceblau uwchben yn hyll ac y byddai'r gymuned amaethyddol yn gwrthwynebu adeiladu rhagor o beilonau. Gofynnodd a fyddai'n bosib rhedeg y ceblau hyn dan y môr a gofynnodd beth oedd y cyfyngiadau. Atebodd MK fod rhedeg y ceblau dan y dŵr yn bosib ond mai dim ond 2GW y byddai 1 cebl yn gallu ei gludo. Mae'n bosib gosod 4 neu fwy o geblau i drosglwyddo'r ynni. Roedd MK yn gwerthfawrogi pryderon y gymuned amaethyddol ac ategodd y byddai'r Grid Cenedlaethol yn pwysu a mesur pob safbwynt.
- Gofynnodd y Cyngorydd Aled Morris Jones (AMJ) a oes amserlen ar gyfer y gwaith. Atebodd MK y byddai'r amserlen yn dibynnu ar y dewis technegol. Byddai'r gwaith adeiladu'n para tua 5 mlynedd.
- Gofynnodd John Chamberlain (JC) a ellid addasu'r peilonau presennol i gludo rhagor o lwyth, a phetai system newydd yn cael ei hadeiladu, beth fyddai'n digwydd i'r hen beilonau. Atebodd Gavin Crook (GC) na all y ceblau uwchben sy'n bodoli gludo rhagor o bŵer a rhaid gosod cysylltiad newydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig cynnal a chadw'r

cyfarpar presennol sy'n bodoli cyn adeiladu systemau newydd. Ateggodd MK fod y peilonau modern o safon uchel iawn a'u bod yn gallu gwrthsefyll rhwd.

- Gofynnwyd pam na ellid trosglwyddo ynni o Wylfa i Lannau Dyfrdwy. Atebodd MK fod y Grid Cenedlaethol yn edrych ar pob dewis yn fanwl.
- Gofynnwyd cwestiwn pam fod yr ynni a gynhrychir gan y fferm wynt ar y môr yn cael ei drosglwyddo i Wylfa yn hytrach nag i Lannau Mersi. Atebodd MK eu bod yn edrych ar bob dewis rhesymol.
- Gofynnodd Roger Williams (RW) a fydd y system drosglwyddo bresennol yn aros lle y mae. Atebodd MK y bydd y system gyfredol yn aros ond ei bod wedi cyrraedd ei llawn potensial.

8 UNRHYW FATER ARALL

- Dim.

9 DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

- Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 10^{fed} Tachwedd.
- Diolchodd DE i bawb am eu presenoldeb. Daethpwyd â'r cyfarfod i ben am 7.45pm.

I gael gwybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm ar 0800 954 9516 neu wylfaenquiries@horizonnuclearpower.com, neu fynd i www.horizonnuclearpower.com

Gallwch weld copi o'r cofnodion hyn a'r holl gyflwyniadau yng nghyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect drwy fynd i www.wylfaplq.com